# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llangywer

# 7/5/2025

1. Derbyniwyd Adroddiad y Cadeirydd, D Clwyd Davies.
2. Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2024.
3. Etholwyd Gwyn Roberts fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2025-26. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mr Clwyd Davies am ei arweiniad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ac yn arbennig am y datblygiadau o ran rheoli gor-dwristiaeth a'r gwelliannau a wnaethpwyd yn y fynwent.
4. Etholwyd Eleri Jones yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2025-26.
5. Cytunodd y Clerc i gynrychioli'r Cyngor ar gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
6. Enwebwyd Tyly Roberts a Dafydd Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Bartneriaeth Penllyn, ac o ganlyniad ar Fwrdd Cwmni Pum Plwy Penllyn.
7. Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor.
8. Adolygwyd rhestr eiddo'r Cyngor
9. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Nodwyd y sylw fod angen adfer y cymal "Fidelity Guarantee" ar y polisi yswiriant, a bod camau wedi ei wneud i sicrhau hynny. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol i'w hanfon i'r Archwilydd Allanol ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.
10. Rhoddwyd ystyriaeth i fater Lwfansau Cynghorwyr, ac ymatebodd yr aelodau ar y ffurflen a ddarparwyd.
11. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer 2025-26.

**Dyddiadau Cyfarfodydd:**

7/5/25 Cyfarfod Blynyddol 2025
14/7/25
8/9/25
10/11/25
12/1/26
9/3/26
11/5/26 Cyfarfod Blynyddol 2026